

# 4

## Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Chodi Arian Elusennol:

# Codi arian corfforaethol dan y chwyddwydr

Cynhyrchwyd gan:



Adolygwyd gan:



### Cyflwyniad

Daw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (y Rheoliad) i rym ar 25 Mai 2018 i ddiweddarau'r fframwaith diogelu data presennol yn y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn cwmpasu pob sector a phob sefydliad - sy'n golygu bod rhaid i bobl mewn gwahanol sefydliadau feddwl am y data personol y gallent fod yn ei brosesu a rhoi'r egwyddorion ar waith yn eu maes gwaith nhw.

### Codi arian corfforaethol

At ddiben y canllaw hwn, mae codi arian corfforaethol yn golygu meithrin perthynas rhwng cwmni ac elusen. Gallai hynny fod ar gyfer partneriaeth elusen y flwyddyn, ymgyrch codi arian penodol, codi arian gan weithwyr neu gymorth arall.

### Cwestiynau allweddol i godwyr arian corfforaethol eu gofyn am y Rheoliad

#### 1. Ydw i'n defnyddio data personol?

Mae'r Rheoliad yn gymwys i 'ddata personol', sy'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r wybodaeth honno - mae hyn yn cynnwys enw, cyfeiriad, manylion cyswllt ond gallai hefyd gynnwys dwy neu ragor o ddarnau o amhenodol wybodaeth a allai, o'u cyfuno, enwi unigolion penodol gan gynnwys, er enghraifft, cyfuniad o ryw, dyddiad geni, dangosydd daearyddol a disgrifwyr eraill. Mae diffiniad llawnach o 'ddata personol' i'w weld yn <https://ico.org.uk/>

Mae'r modd y bydd codwyr arian corfforaethol efallai am brosesu data personol gan gwmnïau yn ystod eu gweithgareddau yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- wneud gwaith ymchwil allanol (er enghraifft, ar-lein neu mewn cyfeirlyfrau cyhoeddus) i enwi unigolion o bwys o fewn y sefydliadau hyn a allai fod â chyswllt arbennig â'ch achos elusennol neu a allai fod yn hapus i chi gysylltu â nhw ynghylch codi arian. Gall hyn gynnwys edrych ar gefndiroedd a dylanwadau'r unigolion hynny. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig bod gwybodaeth yn cael ei rhoi ynghylch prosesu teg. Dylid ystyried hefyd i ba raddau y mae prosesu gwybodaeth gyhoeddus o fewn disgwyliadau rhesymol rhywun - er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng adolygu'r disgrifiad o weithiwr ar wefan cwmni a chyfrif Facebook personol rhywun.
- cysylltu â chynrychiolwyr cwmni i wybod rhagor am ei bolisiau ar roi i elusennau a cheisio cefnogaeth y cwmni.

- 
- storio gwybodaeth gyswllt ar gyfer unigolion allweddol o fewn y cwmni.
  - dilyn i fyny cyfathrebiadau, gan gynnwys negeseuon o ddiolch a rhoi gwybod i'r cwmni am gynnydd prosiectau y maent efallai yn eu cefnogi.

Er bod cwmnïau yn sefydliadau, bydd hawliau gan yr unigolion sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau hyn o ran unrhyw ddata corfforaethol sy'n eu henwi nhw'n benodol. Mae data personol yn cynnwys cyfeiriadau e-bost corfforaethol a'r manylion cyswllt eraill sy'n enwi unigolion (er enghraifft [enw.cyfenw@sefydliad.org.uk](mailto:enw.cyfenw@sefydliad.org.uk)). Felly, fel codwr arian, rydych yn debygol iawn o brosesu data personol pan fyddwch yn ymgysylltu â chwmni.

Wrth brosesu data personol, mae'n rhaid i chi ystyried dau fater allweddol:

- pa ddibenion yr hoffech brosesu'r data ar eu cyfer; a
- sut y byddwch yn dangos bod y data wedi cael ei brosesu'n gyfreithlon.

## 2. Beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer cysylltu ag unigolyn mewn cwmni arbennig?

Os ydych chi'n hyrwyddo'ch elusen i unigolion penodol mewn cwmni mae hyn yn debygol o gael ei gynnwys o fewn y diffiniad o farchnata uniongyrchol, sy'n cynnwys hyrwyddo amcanion elusennau. Fel arall, os ydych yn gwneud gwaith ymchwil ar gynrychiolwyr cwmni unigol neu'n casglu data ar yr unigolion hynny at ddiben ceisio cronfeydd ar ddyddiad diweddarach, bydd eich gweithgaredd yn cynnwys prosesu ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol. Sylwch, os yw rhif ffôn wedi'i gofrestru ar y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn - ni allwch wneud galwadau ffôn byw i'r rhif hwnnw oni bai bod cydsyniad gennych i wneud hynny.

Mae'r amrywiaeth lawn o seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu data personol i'w gweld ym **Mhapur Briffio 1**. Fodd bynnag, os ydych yn gwneud gwaith marchnata uniongyrchol mae'n debyg y bydd angen i chi ddibynnu ar naill ai gydsyniad cadarnhaol yr unigolyn neu fudd cyfreithlon fel sail ar gyfer cysylltu â chynrychiolydd corfforaethol.

### a) Cydsyniad

Os yw unigolyn wedi rhoi ei fanylion cyswllt i chi gyda chydsyniad penodol i chi gysylltu at ddiben arbennig, efallai y bydd modd ddibynnu ar y cydsyniad hwnnw fel eich sail ar gyfer cysylltu.

Fodd bynnag, mewn sawl achos byddwch yn cysylltu â chyswllt cwmni heb gyflwyniad blaenorol, felly efallai na fydd defnyddio cydsyniad fel eich sail gyfreithlon yn ymarferol. Mae'r trothwy ar gyfer cydsyniad o dan y Rheoliad yn uchel; rhaid i gydsyniad gael "ei roi o'ch gwirfodd, bod yn benodol, yn wybodus ac yn arwydd diamwys o ddymuniadau'r unigolyn", felly rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n gallu dangos eich bod chi wedi bodloni pob un o'r meini prawf er mwyn gallu cydymffurfio (er enghraifft, hyd yn oed os yw gwefan cwmni yn datgan ei bod yn "croesawu cysylltiadau gan elusennau", nid yw hyn yn debygol o fod yn ddigonol i ddangos bod cydsyniad wedi cael ei geisio gan unigolyn i ddefnyddio ei ddata personol).

Cofiwch hefyd fod cyfathrebu sy'n amlinellu opsiynau cydsyniad ynddo'i hun yn fath o farchnata uniongyrchol. Bydd rhaid i chi gael sail wahanol er mwyn cyfiawnhau cyfathrebu o'r fath (er enghraifft gall budd cyfreithlon fod yn gymwys ar gyfer swydd neu alwadau ffôn byw - gweler isod) os nad oes unrhyw ganiatâd blaenorol gennych gan yr unigolyn i ddefnyddio ei ddata at ddibenion marchnata uniongyrchol.

---

## b) Budd cyfreithlon

Os yw cydsyniad yn debygol o fod yn rhy anodd i'w gael, efallai y gall codwyr arian corfforaethol ddefnyddio budd cyfreithlon fel sail gyfreithlon ar gyfer cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol mewn sawl achos, ar yr amod y gallant ddangos eu bod nhw'n cydymffurfio â'r 'prawf 3 cham' ar gyfer penderfynu a yw cyfathrebu yn gyfreithlon neu beidio.

**Os mai budd cyfreithlon yw eich sail ar gyfer prosesu, mae'n rhaid i chi:**

- Dangos eich bod chi wedi ystyried buddiannau'r unigolyn yn erbyn eich buddiannau chi trwy wneud asesiad budd cyfreithlon (sy'n debygol o fod yn hawdd i'w gyfiawnhau os yw'ch cyfathrebu marchnata uniongyrchol mewn cyd-destun proffesiynol - gweler Cwestiwn 4 isod)
- gadael i'r unigolyn dan sylw wybod eich bod chi'n prosesu ei ddata ac at ba ddiben
- cynnig cyfle i'r unigolyn optio allan o gael deunyddiau cyfathrebu pellach os hoffent wneud hynny.

Mae rhagor o wybodaeth am y "prawf 3 cham" ar gyfer budd cyfreithlon i'w weld yng Nghanllaw yr ICO i'r Rheoliad (<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>).

Pan fyddwch yn defnyddio budd cyfreithlon, fel arfer byddwch yn gallu defnyddio hysbysiad preifatrwydd i ddangos sut y byddwch yn prosesu data personol unigolyn a sut y gall optio allan, ar yr amod eich bod yn rhoi gwybod i'r unigolyn pan fyddwch yn cyfathrebu.

### 3. Pa sianeli alla i eu defnyddio i gysylltu â rhywun mewn cwmni neu sefydliad am fy elusen a beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'tanysgrifiwr unigol' a 'thanysgrifiwr corfforaethol'?

Mae anfon e-bost neu neges farchnata SMS i danysgrifwyr unigol yn gofyn am gydsyniad yr unigolyn o dan Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003, oherwydd ni fydd optio i mewn meddal yn gymwys i godi arian. Os yw codwyr arian am ddibynnu ar fuddiannau cyfreithlon ar gyfer marchnata fel rheol byddant yn gallu cysylltu ag unigolyn at ddibenion marchnata uniongyrchol trwy'r post neu alwad ffôn byw yn unig (sylwch pan fydd rhif ffôn wedi'i gofrestru ar y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn, ni allwch wneud galwadau byw i'r rhif hwnnw oni bai bod cydsyniad gennych i wneud hynny).

Fodd bynnag, pan fyddwch yn cysylltu â chwmnïau, gall fod yn gyfreithlon i godwyr arian ddefnyddio budd cyfreithlon i anfon cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol trwy'r e-bost o dan y categori derbynnydd 'tanysgrifiwr corfforaethol'.

Mae ym mha gyd-destun rydych yn cysylltu â'r unigolyn yn bwysig yma o ran penderfynu a ydych yn cysylltu â 'thanysgrifiwr corfforaethol' o dan fudd cyfreithlon, ac felly'n gallu defnyddio sianeli electronig i anfon deunyddiau marchnata atynt.

- O dan Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig, byddai'n **rhaid i'r sefydliad y mae'r unigolyn yn gweithio iddo gael ei gynnwys o fewn y categori sefydliad 'tanysgrifiwr corfforaethol'**. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau fel y diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 1985, cwmnïau wedi'u corffori yn unol â siarter frenhinol neu lythyrau patent, unig gorfforaethau, partneriaethau yn yr Alban, ac unrhyw gorff corfforaethol neu endid arall (gan gynnwys elusennau) sy'n berson cyfreithiol ar wahân i'w aelodau.
- Dylai **sail y cyfathrebu fod yn berthnasol i waith yr unigolyn** o fewn y sefydliad (yn wahanol i gysylltu â'r unigolyn mewn rhinwedd personol). Nid yw hyn yn ofyniad penodol o'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig ond dylid ei ystyried yn arfer da o ran sicrhau bod eich cyfathrebu yn briodol yn yr amgylchiadau.

---

Mae enghreifftiau o ble y gallai'r categori 'tanysgrifiwr corfforaethol' fod yn gymwys i gyfathrebu gynnwys gwahodd unigolyn i siarad mewn digwyddiad fel rhan o'i rôl neu awgrymu cyfarfod i drafod partneriaeth gorfforaethol bosibl neu i siarad am weithgareddau codi arian gweithwyr. Gallai hefyd gynnwys cais i godi arian wedi'i gyfeirio at y sefydliad, os gallwch ddangos bod y dull gweithredu yn berthnasol i'w waith (er enghraifft, gweithiwr busnes sy'n datgan bod "digartrefedd" yn rhan allweddol o'i amcanion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn derbyn e-bost gan elusen ddigartrefedd sy'n ceisio nawdd corfforaethol).

Fodd bynnag, er nad oes rhaid i chi gael cydsyniad blaenorol ar gyfer cyfathrebu 'tanysgrifiwr corfforaethol', rhaid i chi gynnal asesiad budd cyfreithlon o hyd gan ddefnyddio'r 'prawf 3 cham' (gweler uchod) ac ystyried disgwyliadau rhesymol yr unigolyn.

Er enghraifft, byddai'n anodd i ddangos bod budd cyfreithlon gennych ar gyfer defnyddio data personol i gysylltu ag unigolyn trwy ei gyfeiriad e-bost corfforaethol heb gydsyniad blaenorol i ofyn i'r unigolyn gefnogi eich elusen mewn rhinwedd personol, er enghraifft i wneud rhodd bersonol. Ni fyddai'n briodol ychwaith i ddefnyddio'r categori 'tanysgrifiwr corfforaethol' i gysylltu ag unigolyn os nad yw'ch marchnata yn berthnasol i waith y sefydliad (cwestiwn prawf posibl yma fyddai: "Fyddai'n rhesymol i'r unigolyn ddisgwyl y cyfathrebu hwn yn wyneb y gwaith y mae'r sefydliad yn ei wneud?")

Er nad oes angen cydsyniad blaenorol arnoch ar gyfer cyfathrebu 'tanysgrifiwr corfforaethol', mae'n rhaid i chi gofio y bydd hawl gan gynrychiolwyr unigol o'r cwmni i ofyn i chi roi'r gorau i ddefnyddio ei fanylion cyswllt personol neu anfon deunyddiau marchnata i'w gyfeiriad e-bost gwaith personol. O dan Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig bydd rhaid i chi ddweud wrth yr unigolyn pwy ydych chi a rhoi eich manylion cyswllt er mwyn i'r unigolyn allu gwneud cais i beidio â derbyn deunyddiau marchnata mwyach os yw am wneud hynny. Os ydych yn derbyn cais o'r fath, rhaid i chi gydymffurfio â'r cais.

#### **4. Beth os yw rhywun sy'n rhoi rhodd ei hun yn rhoi cyfeiriad e-bost gwaith i ni?**

Weithiau bydd pobl yn rhoi eu cyfeiriadau e-bost gwaith/busnes i elusen fel rhan o rodd, oherwydd dyna sut yr hoffon nhw glywed gan yr elusen yn y dyfodol. Mae hynny'n iawn ond byddai'r rheolau arferol ynghylch angen cael cydsyniad cadarnhaol neu ddibynnu ar fudd cyfreithlon yn gymwys ar gyfer marchnata uniongyrchol yn y dyfodol.

Os ydych yn bwriadu defnyddio cydsyniad fel eich sail ar gyfer cysylltiad, bydd rhaid i chi ystyried a oes digon o dystiolaeth gennych i ddangos eich bod yn bodloni'r safon uchel o gydsyniad sy'n ofynnol gan y Rheoliad. O dan y Rheoliad, rhaid i gydsyniad "gael ei roi o'ch gwirfodd, bod yn benodol, yn wybodus ac yn arwydd diamwys o ddymuniadau'r unigolyn." Os ydych chi'n defnyddio cydsyniad bydd rhaid i chi allu dangos bod y cydsyniad a roddwyd gan yr unigolyn yn bodloni'r meini prawf hyn, gan gynnwys a oedd wedi rhoi arwydd penodol a diamwys o'i ddymuniadau ynghylch sut y dylai'r cyfeiriad e-bost gael ei ddefnyddio gennych chi.

Os yw'n anodd cael dystiolaeth ar gyfer cydsyniad o dan y Rheoliad, gall budd cyfreithlon fod yn sail gyfreithlon fwy priodol i'w dibynnu arni ar gyfer cysylltu â'r unigolyn (er rydych yn debygol o gael eich cyfyngu i wneud hynny trwy'r post neu alwad ffôn byw o dan y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig). Gweler Cwestiwn 2 i gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio budd cyfreithlon.

#### **5. Os yw cwmni yn cynnal diwrnod/gweithgareddau codi arian ar gyfer ei weithwyr ar gyfer ein helusen, allwn ni ddilyn hyn i fyny gyda phobl fel rhoddwyr unigol i ddweud mwy wrthynt am ein gwaith neu ffyrdd eraill y gallant ein cefnogi ni?**

Byddai'r math penodol hwn o gyfathrebu ag unigolion yn cael ei ystyried yn fath o farchnata uniongyrchol, ac felly byddai angen sail gyfreithlon arnoch i anfon unrhyw ddeunyddiau (cydsyniad neu fudd cyfreithlon), yn dibynnu ar eich gallu i fodloni'r amodau ar gyfer defnyddio un o'r seiliau cyfreithlon hyn, a'r sianel rydych am ei defnyddio i gyfathrebu â nhw - gweler **Cwestiwn 1-3**).

---

Os ydych yn rhoi ffurflenni rhoi i gwmnïau eu defnyddio, gwnewch yn siŵr bod hysbysiadau prosesu teg gennych sy'n dangos sut yr hoffech chi ddefnyddio data personol yr unigolyn a rhoi cyfle i'r unigolyn optio i mewn (cydsyniad) neu gyfle i optio allan (os ydych yn defnyddio budd cyfreithlon). Hefyd, cofiwch nid yw unigolyn sy'n darparu gwybodaeth personol er mwyn gallu hawlio Rhodd Cymorth ar rodd yn golygu bod caniatâd gennych i ddefnyddio'r wybodaeth honno ar gyfer marchnata uniongyrchol.

Ni ddylai'r cwmni anfon rhestrau o enwau/cyfeiriadau e-bost ei weithwyr i unrhyw elusen er mwyn i'r elusen anfon deunyddiau marchnata uniongyrchol, oni bai ei fod wedi gwneud yn siŵr bod y gweithwyr hynny yn hapus i'w manylion gael eu trosglwyddo i'r elusen benodol.

**6. Allwn ni edrych ar yr wybodaeth sydd ar gael ar safleoedd rhwydweithio proffesiynol (e.e. LinkedIn) neu sydd ar gael fel arall yn gyhoeddus i wybod mwy am bobl mewn cwmnïau y mae gennym ni berthynas â nhw neu yr hoffem gysylltu â nhw?**

Yn aml iawn bydd codwyr arian am edrych ar broffil swyddi, profiad a hanes/diddordebau rhywun sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld trwy safleoedd rhwydweithio proffesiynol. Gall hyn helpu i feithrin perthynas rhwng yr elusen a'r partner corfforaethol ac mae'n golygu y gall yr elusen deilwra ei chysylltiad yn unol â hynny (er enghraifft trwy'r broses o 'broffilio cyfoeth' neu 'sgrinio cyfoeth'). Os ydych am ddefnyddio'r math hwn o wybodaeth, bydd rhaid i chi gael sail gyfreithlon i wneud hynny - naill ai gydsyniad neu fudd cyfreithlon.

Mae elusennau yn debygol o ddefnyddio budd cyfreithlon fel sail, ond i wneud hynny bydd rhaid i chi sicrhau eich bod yn deg ac yn gyfreithlon wrth ddefnyddio'r data hwnnw ac ystyried disgwyliadau rhesymol yr unigolyn. Mae ei ddisgwyliadau rhesymol yn debygol o amrywio yn dibynnu ar y math o ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ac ym mha gyd-destun y cafodd y data hwnnw ei gyhoeddi yn wreiddiol.

Ym mhob achos, bydd rhaid i'r elusen wneud penderfyniad a llunio barn yn seiliedig ar y cyd-destun a disgwyliadau rhesymol yr unigolyn, gan sicrhau nad yw buddiannau a hawliau preifatrwydd yr unigolyn yn bwysicach na'r budd cyfreithlon o brosesu'r wybodaeth. Ar adeg briodol yn gynnar yn y broses, bydd rhaid i chi roi gwybod i'r unigolyn hefyd bod ei gwybodaeth wedi cael ei defnyddio yn y ffordd hon trwy roi eich polisi preifatrwydd iddo. Gweler Cwestiwn 2 i gael rhagor o wybodaeth ar ddefnyddio budd cyfreithlon. Os yw hawliau preifatrwydd yr unigolyn yn bwysicach na'r budd cyfreithlon o brosesu'r wybodaeth hon, ni fyddwch yn gallu defnyddio budd cyfreithlon fel eich sail ac nid ydych yn debygol o gael cydsyniad.

Mae'n bwysig cofio bod yr hawl gan unigolion i wrthwynebu marchnata, sy'n cynnwys proffilio at ddibenion marchnata, bob amser - waeth a oes ganddynt berthynas â chi ar hyn o bryd neu beidio.

### **Cwestiynau eraill**

#### Beth am gytundebau cyfranogwr masnachol a'r wybodaeth a rennir rhwng sefydliadau?

Mae'n ofyniad cyfreithiol (wedi'i gynnwys yn y [Cod Ymarfer Codi Arian](#)) i gael cytundeb ysgrifenedig ag unrhyw sefydliad sydd wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o 'Cyfranogwr Masnachol'. Yn fras ystyr 'Cyfranogwr Masnachol' yw unrhyw un sy'n ymgymryd â busnes ac yn ystod y busnes hwnnw mae'n honni y bydd yn gwneud rhoddion i elusen. Er enghraifft, byddai gweithgynhyrchwr sy'n hysbysebu powdr golchi gydag addewid y bydd cyfraniad yn cael ei wneud i elusen ar gyfer pob pecyn a werthir yn gyfranogwr masnachol.

O ran y Rheoliad, dylai'r cytundeb hwn gynnwys cyfeiriad at y polisiâu a'r gweithdrefnau y bydd y ddau sefydliad yn eu dilyn ar gyfer prosesu unrhyw ddata personol. Dylai sefydliadau hefyd gytuno sut y caiff cydymffurfiaeth ei fonitro a'i adrodd. Os yw unrhyw achosion o dorri'r rheoliad data yn dod i'r amlwg, mae'n rhaid i'r ddau barti gael proses gytûn i gymryd camau priodol (gan gynnwys, lle y bo angen, adrodd am yr achos o dorri'r rheoliad i'r ICO). Os yw un sefydliad yn rhannu data personol â sefydliad arall, (er enghraifft, rhestr o weithwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiad corfforaethol), fel rhan o'r wybodaeth breifatrwydd a ddarperir i'r unigolyn, dylech amlinellu eich dibenion ar gyfer rhannu eu data ac enw pob un o'r sefydliadau dan sylw (y sefydliad sy'n rhannu a'r sawl sy'n derbyn). Os hoffech chi rannu'r wybodaeth at ddibenion marchnata uniongyrchol, dylech geisio cydsyniad gan yr unigolyn cyn gwneud hynny.

---

### **Am faint alla i storio gwybodaeth bersonol?**

Rhaid i ddata personol gael ei gadw dim ond cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r diben y cafodd ei brosesu ar ei gyfer. Mae'n werth sicrhau eich bod chi'n glir ynghylch pa ddata personol rydych yn ei gadw, ar ba sail rydych yn ei gadw, a yw'r diben rydych wedi bod yn ei brosesu ar ei gyfer yn dal i fod yn gymwys ac, os ydyw, sut y byddwch yn cadw'r data yn gywir ac yn gyfoes. Mae'n rhaid i chi egluro hawl yr unigolyn hefyd i wrthwynebu prosesu at y diben hwnnw.

Mae'n bwysig bod mor glir â phosibl yn eich datgeliad preifatrwydd cychwynnol i'r unigolyn ynghylch yr holl ddiben rydych yn rhagweld y byddwch yn defnyddio'r data ar ei gyfer. Fel arall, efallai y bydd eich sail budd cyfreithlon ar gyfer defnyddio'r data wedi dod i ben.

Er enghraifft, dywedwch fod yr ymchwil wedi cael ei wneud ar rywun ar gyfer cais "Elusen y Flwyddyn 2018". Cafodd yr unigolyn hwn wybod ar ddechrau'r broses ymgeisio trwy ddatganiad preifatrwydd fod ei ddata yn cael ei brosesu at ddiben digwyddiad 2018. Ond mae'r cais yn cael ei ystyried bob blwyddyn ac mae'r elusen yn sylweddoli ar ôl y digwyddiad y gallai fod yn ddefnyddiol i gadw'r data hwn ychydig yn hwy.

Mewn amgylchiadau o'r fath bydd rhaid i'r elusen naill ai ddileu'r data pan fydd cystadleuaeth 2018 wedi dod i ben neu ddiweddarau ei gwybodaeth preifatrwydd gyda'r unigolyn i egluro y bydd yn prosesu'r data ar gyfer diben newydd (cystadlaethau "Elusen y Flwyddyn" yn y dyfodol). Bydd rhaid i'r elusen ailbwyseisio hawl yr unigolyn i wrthwynebu defnyddio ei ddata ar gyfer y diben hwn hefyd.

### **Allwn ni roi gwybod i gwmni am enwau gweithwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer digwyddiadau fel rhan o'n partneriaeth?**

Bydd hyn yn dibynnu ar yr hyn rydych wedi'i ddweud wrth y gweithwyr ynghylch sut y byddwch yn prosesu eu data. Rhaid i chi roi gwybod i'r gweithwyr os ydych yn bwriadu defnyddio eu data fel hyn a chynnig cyfle iddynt wrthwynebu. Dylech ystyried yn ofalus hefyd effaith gwneud hynny fel rhan o'ch Asesiad Budd Cyfreithlon, yn enwedig os yw'r cyflogwr mewn sefyllfa o bŵer dros y gweithiwr (er enghraifft, oes risg y gallai'r gweithwyr gael eu trin yn wahanol yn eu swydd gan eu cyflogwr os yw eu rheolwr yn gwybod eu bod nhw wedi cofrestru neu heb gofrestru i gymryd rhan mewn digwyddiadau corfforaethol?)

### **Beth yw'r sefyllfa o ran ein contractau yn trosglwyddo manylion i bobl eraill? Er enghraifft, os yw prif gyswllt mewn partneriaeth yn dweud yr hoffai ei gyflenwr ddechrau partneriaeth â ni, all y cyswllt anfon ei fanylion atom i wneud cysylltiad neu ein copïo i e-bost cyflwyniadol? Neu, yn yr achos hwn, fyddai'n rhaid i ni roi caniatâd ysgrifenedig i'r partner (e-bost) i rannu ein manylion cyswllt ac yna eu trosglwyddo i'r cyflenwr i wneud cysylltiad uniongyrchol â ni?**

Yn y sefyllfa hon bydd yn dibynnu a yw'n bodloni'r categori o fod yn danysgrifiwr corfforaethol neu beidio (gweler Cwestiwn 3). Os ydyw, gall y sail budd cyfreithlon fod yn gymwys ar gyfer rhannu'r data, ar yr amod bod holl ofynion y sail honno wedi'u bodloni. Os yw'n 'danysgrifiwr unigol' o dan y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig, bydd angen cydsyniad. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yng [Nghanllaw'r ICO ar PECR](#).

---

**Cyfeiriadau  
allweddol at y  
Rheoliad a  
chyfeirio:**

**ICO**

Canllaw i'r Rheoliad

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>

Canllaw Marchnata Uniongyrchol:

<https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1555/direct-marketing-guidance.pdf>

Asesiadau effaith diogelu data

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/accountability-and-governance/data-protection-impact-assessments/>

**Y Rheoleiddiwr Codi Arian**

Cod Ymarfer Codi Arian

<https://www.fundraisingregulator.org.uk/code>

Llyfrgell diogelu data: Arweiniad a gwybodaeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

<https://www.fundraisingregulator.org.uk/more-from-us/resources/data-protection-library-general-data-protection-regulation-gdpr-guidance-and>

**IoF**

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol: Yr Hanfodion ar gyfer Sefydliadau Codi Arian

<https://www.institute-of-fundraising.org.uk/library/gdpr-the-essentials-for-fundraising-organisations/>

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol - canolbwyntio ar farchnata uniongyrchol:

<https://www.institute-of-fundraising.org.uk/library/gdpr-focus-on-direct-marketing/>

---

**Cefnogwyd gan:**



CHARITY COMMISSION  
FOR ENGLAND AND WALES



Scottish  
Fundraising  
Standards  
Panel

